

Mark James, Under Neon Loneliness

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

# Fframwaith Strategaeth Ryngwladol 2024-2034

## Y celfyddydau a llesiant yng Nghymru a'r byd

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Cynnwys

Cyflwyniad ........ 4

Blaenoriaethau Strategol 2024-2034 ........ 8

Gwaith Rhyngwladol a Chwe Amcan Llesiant Cyngor Celfyddydau Cymru ........ 10

Deilliannau Llesiant Celfyddydau Rhyngwladol Cymru ........ 15

Cyfeirnodau ........ 18



Jony Easterby, *Garden of Shadows - The Trees*, Dulyn 2023

Hygyrchedd

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, braille, sain, hawdd ei ddarllen ac Arwyddeg a bydd yn ymdrechu i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am y Gymraeg a’r Saesneg ar gais.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Mae celfyddyd yn rhan o fywyd bob dydd pobl Cymru, yn ein cysylltu â'n gilydd, yn hollbwysig i'n llesiant, ac yn ein hysbrydoli am genedlaethau i ddod.

Gweledigaeth Cyngor Celfyddau Cymru

Cysylltu potensial artistig, creadigol a diwylliannol rhyngwladol Cymru â'r byd, gan sicrhau tegwch i bobl ac i'r blaned.

Pwrpas Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

# CYMRU . BYDOL . TEG .

Mae'r strategaeth ryngwladol hon yn darparu fframwaith deng mlynedd ar gyfer buddsoddiadau rhyngwladol Cyngor Celfyddydau Cymru, dan arweiniad ein hasiantaeth Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.

Mae'r strategaeth yn pontio tair blaenoriaeth:

1. Cefnogi datblygiad y celfyddydau yng Nghymru drwy ymgysylltiad rhyngwladol.
2. Meithrin ac ehangu cysylltiadau diwylliannol rhyngwladol Cymru a chefnogi agenda diplomyddol Tîm Cymru Llywodraeth Cymru.
3. Galluogi artistiaid o gymunedau amrywiol a chymunedau diaspora i ymgysylltu â'n gwaith rhyngwladol.

Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru (CRhC) yn darparu gwybodaeth, cyngor, offer digidol a chymorth ariannol ar gyfer y sector, ynghyd â phresenoldeb mewn digwyddiadau. Mewn partneriaeth â'n chwaer Gynghorau Celfyddydau ledled y DU a thrwy rwydwaith rhyngwladol On the Move, rydyn ni'n rhedeg Gwybodfan Celf y DU (Pwynt Gwybodaeth am Symudedd i artistiaid). Rydyn ni hefyd yn ymgysylltu â'n partneriaid yn y DU ar raglenni strategol ac aml-wlad sy'n rhoi momentwm newydd i'n gwaith cydweithredol rhyngwladol.

Gyda buddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a phartneriaeth sefydledig â'r Cyngor Prydeinig, rydyn ni'n meithrin cysylltiadau diwylliannol Cymru. Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth strategol â sefydliadau eraill yng Nghymru ac yn rhyngwladol, gan gynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Academi Heddwch Cymru, a llawer o gwmnïau ac unigolion y mae eu gwaith yn cael ei ariannu gennym drwy gyllid aml-flwyddyn a nawdd loteri.

Mae'r dull Tîm Cymru, a ddatblygwyd yn wreiddiol fel rhan o ymgyrch Cymru yng Nghwpan y Byd Dynion FIFA 2022, yn canolbwyntio ar werthoedd cyffredin sy'n ein helpu i lywio ein hymdrechion i gydweithio mewn amgylchedd heriol. Bydd y model hwn o Ddiplomyddiaeth Ddiwylliannol a Chwaraeon yn cael ei ddefnyddio mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau yn ystod oes y strategaeth hon, gan ddechrau gyda thîm Chymru yn cystadlu yn nhwrnament EWRO Merched UEFA yn 2025.



Qwerin - FIET, Mallorca

Mae **chwarae teg** yn un o'r gwerthoedd sydd wedi bod wrth galon gwaith cydweithredol rhyngwladol Cymru ers canrifoedd. Ar ddechrau'r 19eg ganrif, roedd yr eicon diwylliannol Iolo Morgannwg yn arloesol wrth iddo chwilio am gysylltiadau masnach deg a diwylliannol oedd wedi'u seilio'n gadarn ar egwyddorion gwrth-gaethwasiaeth. Ac yntau'n fardd enwog, defnyddiodd Iolo ei greadigrwydd i geisio ail-ddychmygu dyfodol gwahanol, mwy teg a heddychlon. Heddiw, gall artistiaid ar draws y byd uniaethu â hyn.

Mae dynoliaeth, heddwch a pharch a rennir yn parhau i fod yn werthoedd sy'n llywio cysylltiadau diwylliannol Cymru heddiw, ynghyd ag ymdeimlad newydd o gyfrifoldeb byd-eang, sydd bellach wedi'i ymgorffori yn y gyfraith drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Drwy'r ddeddf hon, mae Cymru wedi gwneud diwylliant yn gonglfaen ar gyfer cyfiawnder amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol.

Y Nod Llesiant, Diwylliant a'r Gymraeg hwn yw'r cyntaf o'i fath yn y byd ac mae'n rhoi dyletswydd ddeddfwriaethol ar bob corff cyhoeddus yng Nghymru i ystyried eu hymrwymiad diwylliannol ochr yn ochr â'u hymrwymiad cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol wrth geisio cyrraedd y Nodau Datblygu Cynaliadwy Byd-eang (SDGs). Mae'r Ddeddf yn rhoi'r un gwerth i lesiant diwylliannol â llesiant amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, gan gydnabod y rôl arwyddocaol mae'n ei chwarae. Y nod o gyflawni cyfiawnder byd-eang a lleol trwy ddull diwylliannol sydd wedi ysbrydoli ein diffiniad o lesiant diwylliannol.

Ystyr **llesiant diwylliannol** yw pan fydd pobl a chymunedau'n cymryd rhan mewn gweithgareddau artistig a diwylliannol sy'n creu ymdeimlad o le a pherthyn ac sy'n arwain at fanteision iechyd a buddion eraill.

Mae llesiant diwylliannol yn helpu pawb yng Nghymru i gyflawni nodau llesiant – gan gynnwys nod diwylliant a'r iaith Gymraeg, iechyd, amrywiaeth a chynhwysiant, yr argyfwng hinsawdd a natur a'r economi. Er mwyn i lesiant diwylliannol ffynnu, mae llesiant artistiad a gweithwyr diwylliannol yn hollbwysig. Mae buddsoddi yn y celfyddydau a chyfranogiad yn ffordd o gyd-fuddsoddi yn llesiant diwylliannol y genedl ac felly hefyd y byd.

Mae ein cymunedau diaspora amrywiol yn cysylltu Cymru â'r byd ac yn cyfrannu at dapestri lliwgar Cymru o ieithoedd a diwylliannau. Mae'r adroddiad a gomisiynwyd gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru, Nid yw Moroedd Mwyn yn creu Morwyr Medrus, gan Watch Africa Cymru yn gofyn "Pam mae cymaint o ddiddordeb mewn presenoldeb Cymreig dramor, ond nid yn y presenoldeb rhyngwladol o fewn Cymru?"

Mae maniffesto Celfyddydau Anabledd Cymru, Dewch â'n Hawliau Creadigol, yn mynnu ein bod yn gweithredu i gael gwared ar y rhwystrau sy'n wynebu artistiaid anabl sy'n gweithio'n rhyngwladol.

Bydd ein gwerthoedd craidd i flaenoriaethu cydraddoldeb i ferched a chymunedau LGBTQ+ yn parhau i lywio ein gwaith gartref ac yn rhyngwladol dros y degawd nesaf.

Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ei hysbrydoli gan systemau Brodorol sy'n rhoi gwerth ar drosglwyddo gwybodaeth, iaith, diwylliant a thraddodiad a'u cysylltiad â'r tir i genedlaethau'r dyfodol. Yma yng Nghymru, mae cludwyr traddodiadau a storïwyr yn defnyddio eu celfyddyd heddiw i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Yn 2024, daeth artistiaid, amgylcheddwyr, llunwyr polisi a defnyddwyr polisi at ei gilydd i ddylunio Cynllun Cyfiawnder Hinsawdd a'r Celfyddydau Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r diwylliant llesiant hwn wedi'i feithrin a'i siapio gan ein hamgylchedd ac ymrwymiad i'r Gymraeg, ein hiaith Frodorol ni.

Mae Cymru ar flaen y gad mewn perthynas â throsglwyddo iaith sy'n nodwedd ryngwladol unigryw i ni o ran celfyddydau dwyieithog. Fel rhan o Ddegawd Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig, mae'r Gymraeg yn cynnig profiad sydd ag arwyddocâd byd-eang. Credwn fod pob iaith Frodorol yn werthfawr ac yn cludo diwylliant a gwybodaeth y tir lle caiff ei siarad. Gyda niferoedd siaradwyr ein hiaith Frodorol ni, y Gymraeg, i lawr i lai nag 20% o'r boblogaeth, rydyn ni am wrando a dysgu, a rhannu ein profiadau a'n gobeithion ar gyfer goroesiad ein hiaith, wrth i ni ymdrechu i gefnogi nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy ddulliau arloesol.

Fel rhan o'n taith Gwrando, mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru wedi datblygu cyfres o Egwyddorion Arweiniol i ddyfnhau ein dealltwriaeth o ieithoedd Brodorol a'n helpu i lunio ein hymrwymiadau i amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol.



Jukebox - Cwpan Rygbi Dynion y Byd 2023, Marseille, Ffrainc

# Blaenoriaethau Strategol 2024-2034

Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth strategol:


- Creu cyfleoedd rhyngwladol i artistiaid sy'n byw yng Nghymru i gynnal a chyfoethogi eu gwaith mewn ffordd sy'n deg i bobl ac i'r blaned.
- Cefnogi'r celfyddydau a diwylliant o fewn cysylltiadau rhyngwladol a diwylliannol Cymru mewn ffordd sy'n deg i bobl ac i'r blaned.
- Croesawu diwylliannau, ieithoedd a dylanwadau rhyngwladol i Gymru a'u parchu (gan gynnwys cymunedau diaspora a diwylliannau Brodorol) a dad-goloneiddio gwaith artistig.

Caiff y rhain eu profi yn ystod blwyddyn 1 gan ddefnyddio ein dangosyddion llesiant drafft (gweler y tabl ar dudalen 16).

Bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu cyflawni drwy gyfrwng Cynlluniau Blynyddol cysylltiedig Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru.

| Blaenoriaethau Strategol | Gweithgareddau |
| --- | --- |
| Creu cyfleoedd rhyngwladol i artistiaid sy'n byw yng Nghymru i gynnal a chyfoethogi eu gwaith mewn ffordd sy'n deg i bobl ac i'r blaned. | • Gwybodaeth a Chyngor<br>• Grantiau, gan gynnwys y Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol<br>• Rhannu cyfleoedd a chynnwys digidol (wedi'u curadu, eu comisiynu, a'u hail-bwrpasu)<br>• Arddangosfeydd, hyrwyddo a sioeau arddangos<br>• Hwyluso rhwydweithiau a chydweithio<br>• Creu rhwydweithiau sy'n galluogi artistiaid rhyngwladol i deithio mewn ffordd gynaliadwy<br>• Datblygu, hyrwyddo a chefnogi dull gweithredu cynaliadwy a chyfiawnder hinsawdd |
| Cefnogi'r celfyddydau a diwylliant o fewn cysylltiadau rhyngwladol a diwylliannol Cymru mewn ffordd sy'n deg i bobl ac i'r blaned. | • Arwain ar elfen a chyd-destun diwylliannol rhaglenni Tîm Cymru mewn dirprwyaethau a digwyddiadau rhyngwladol<br>• Meithrin cysylltiadau diwylliannol sy'n hybu ymdrechion diplomyddiaeth ddiwylliannol Cymru drwy werthoedd cyffredin<br>• Hyrwyddo Cymru drwy ymgyrchoedd cyfathrebu digidol<br>• Datblygu partneriaethau a chytundebau rhyngwladol<br>• Eiriolaeth a datblygu polisi |
| Croesawu diwylliannau, ieithoedd a dylanwadau rhyngwladol i Gymru a'u parchu (gan gynnwys cymunedau diaspora a diwylliannau Brodorol) a dad-goloneiddio gwaith artistig. | • Cefnogaeth wedi'i thargedu ar gyfer artistiaid mewn cymunedau diaspora yng Nghymru sy'n eu cysylltu â chymunedau ledled y byd ac yn annog trafodaeth<br>• Cefnogi gwyliau, lleoliadau ac orielau i arddangos gwaith rhyngwladol perthnasol ar gyfer cymunedau yng Nghymru<br>• Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau rhyngwladol yn y trydydd sector yng Nghymru, gan gefnogi artistiaid wedi'u dadleoli (e.e. Cenedl Noddfa)<br>• Ymgysylltu ag arweinwyr meddwl Brodorol rhyngwladol a diwylliannau sy'n gysylltiedig ag iaith a'r tir |

## Nodau Llesiant y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol




Bydd fframwaith effaith newydd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn llywio ac yn mesur effaith ein buddsoddiad yn erbyn y Saith Nod Llesiant.

Yn y model Llesiant Diwylliannol hwn, mae'r nod Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu yn cyfrannu at yr holl nodau.

Mae'r fframwaith yn ymgorffori Amcanion Llesiant Cyngor Celfyddydau Cymru (y cyfeirir atynt hefyd fel y Chwe Egwyddor) ac yn cydfynd â Chynllun Gweithredu Cyfiawnder Hinsawdd a Chynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg.

# Gwaith Rhyngwladol a Chwe Amcan Llesiant Cyngor Celfyddydau Cymru (yr Egwyddorion)

Nid yw gwaith rhyngwladol yn digwydd ar ei ben ei hun. Mae'n faes strategol trawsbynciol i Gyngor Celfyddydau Cymru ac mae'n cyfrannu at bob un o'r chwe egwyddor gorfforaethol (Amcanion Llesiant y Cyngor).

Mae'r rhan fwyaf o'r hyn sy'n dod yn waith rhyngwladol yn cael ei feithrin drwy gefnogaeth cyllid aml-flwyddyn, rhaglenni Loteri Genedlaethol fel Creu, Camau Creadigol a'r Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol, buddsoddiadau yng ngwaith artistiaid sy'n ymweld â Chymru, neu drwy gydweithio rhyngwladol.

Mewn perthynas â Chwe Amcan Llesiant Cyngor Celfyddydau Cymru, dyma'r effeithiau a'r deilliannau rydyn ni am eu cyflawni.



Aleighcia Scott yn SXSW 2024 gyda FOCUS Wales (Llun: Lauren Hartmann)

## Creadigrwydd

Mae gan gelf y pŵer i'n cysylltu a'n helpu i ddeall ein gilydd a'r byd o'n cwmpas. Mae ein rhaglen waith ar gyfer Cymru gyfan yn greadigol ac economaidd berthnasol ar lefel fyd-eang a lleol. Rydym yn buddsoddi a chefnogi artistiaid i ymgysylltu gyda talent, rhwydweithiau a phartneriaethau rhyngwladol.

Trwy gydweithio a chymysgedd o fuddsoddiadau o'r tu mewn i Gymru a buddsoddiad rhyngwladol, rydyn ni'n galluogi artistiaid a chwmnïau i feithrin a thyfu creadigrwydd Cymru mewn ffordd gynaliadwy, gan rannu arferion da a meincnodi eu gwaith i gael cydnabyddiaeth ac adborth gan eu cymheiriaid. Mae ein buddsoddiad ni'n cefnogi gwaith dwyieithog ac amlieithog, sy'n rhyngwladol o ran byd-olwg, ac sy'n parchu diwylliannau a chymunedau Brodorol.

## Cydraddoldeb ac ymgysylltiad

Mae'r celfyddydau'n adlewyrchu bywyd pob dinesydd a chymuned yng Nghymru. Mae ein dull o ehangu ymgysylltiad yn cydnabod rhyngblethiad a rhyng-gysylltedd pawb sy'n wynebu gwahaniaethu ac anfantais yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Mae hwn yn ddull nad yw'n goddef unrhyw hiliaeth, ableddiaeth, rhywiaeth, homoffobia a thrawsffobia.

Mae ein gwaith ni'n adlewyrchu ac yn ysbrydoli bywydau'r holl ddinasyddion a chymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu, yn ymdrechu i ddileu pob math o wahaniaethu ar sail nodweddion gwarchodedig ac unrhyw rwystrau iaith mewn gwaith rhyngwladol, ac yn cefnogi ymdeimlad o ddinasyddiaeth fyd-eang yn y celfyddydau yng Nghymru.



Siri Widgel, Gwrando - 'Govledh' (Llun: Yngvid Borg Keilen)

Mae'r ieithoedd amrywiol sy'n cael eu siarad yng Nghymru yn ein cysylltu â diwylliannau eraill ac ieithoedd Brodorol a lleiafrifol eraill yn y byd. Rydyn ni'n annog gwaith amlieithog a'r defnydd o wasanaethau cyfieithu er mwyn gwella'r mynediad i'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu a chreu cysylltiadau â chymunedau'n rhyngwladol.

Mae artistiaid yng Nghymru'n ymgysylltu'n ystyrlon â rhaglenni fel Cenedl Noddfa, a maniffesto 'Dewch â'n Hawliau Creadigol' Celfyddydau Anabledd Cymru, ac yn meithrin perthnasoedd da ar draws cymunedau, gan gynnwys gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae ein gwaith yn cydnabod tiroedd, ieithoedd a chymunedau Brodorol pan fyddwn yn gweithio'n rhyngwladol.




N'Famady Kouyaté ar lwyfan Horizons, WOMEX 24 Manceinion

## Y Gymraeg

Rydyn ni wedi ymrwymo i rannu a dysgu o'n profiad diwylliannol o ddwyieithrwydd ac amlieithrwydd yn rhyngwladol. Mae ein buddsoddiadau'n adrodd stori'r Gymraeg mewn ffyrdd sydd o ddiddordeb rhyngwladol, ac mae ein profiad yn y maes hwn yn cael ei ddefnyddio'n ystyrlon fel nodwedd ryngwladol unigryw. Mae rhaglen Cyngor Celfyddydau Cymru, Gwrando, a gyflwynir gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru, ac Egwyddorion Arweiniol y rhaglen, yn cefnogi artistiaid i wneud ymrwymiad clir y gellir ei gyflawni i wrando ac ymgysylltu ag ieithoedd Brodorol eraill fel rhan o Ddegawd Ieithoedd Brodorol 2022-2032 y Cenhedloedd Unedig.

Mae ein dull gweithredu amlieithog yn addas iawn i ieithoedd a diwylliannau Brodorol eraill, gan gysylltu ag arferion rhyngwladol sydd o fudd i'r iaith Gymraeg. Drwy gynnal sgyrsiau gonest am amrywiaeth iaith, gan wrando, dysgu a rhannu arferion gorau o ran goroesiad iaith, trosglwyddo iaith a'r celfyddydau, byddwn yn dysgu oddi wrth ein gilydd. Mae 'Synhwyro'r Iaith' a 'Llais y Lle' yn ennyn diddordeb rhyngwladol am y ffordd maen nhw'n meithrin hyder mewn ieithoedd Brodorol drwy'r celfyddydau.

## Cyfiawnder hinsawdd

Mae'r camau a gymerwn yn rhai amgylcheddol gynaliadwy, di-garbon a chyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae ein buddsoddiadau mewn gwaith rhyngwladol yn adlewyrchu'r credoau cyffredin a nodwyd yn ein Cynllun Gweithredu ar Gyfiawnder Hinsawdd.

Rydyn ni'n galluogi artistiaid i greu gwaith sy'n ysbrydoli pobl i weithredu dros gyfiawnder hinsawdd a hawliau Brodorol, gan gydnabod bod effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn cael eu teimlo fwyaf gan bobl mewn cymunedau a gwledydd ymylol sydd leiaf cyfrifol am achosi'r newid hwn.

Rydyn ni'n cefnogi artistiaid i gysylltu â rhwydweithiau rhyngwladol perthnasol i ddysgu a symud ymlaen yn y maes hwn, yn enwedig o ran arweinwyr meddwl Brodorol. Mae gwerthoedd unigol a gwerthoedd cyffredin yr artistiaid wrth galon eu gwaith, a dyma beth sy'n arwain eu penderfyniadau ynghylch gyda phwy a ble maen nhw eisiau gweithio neu beidio. Byddwn yn monitro ac yn lleihau ein hôl-troed carbon, drwy gefnogi artistiaid a sefydliadau i ddatblygu cynlluniau lliniaru carbon clir ar gyfer teithiau rhyngwladol a chydnabod eu cyfrifoldeb byd-eang – e.e. cyflog teg i artistiaid; bod yn ymwybodol o enghreifftiau posibl o gam-feddiannu diwylliannol.



Gareth Bonello, India 2024

## Meithrin talent

Rydyn ni'n buddsoddi mewn llwybrau sy'n caniatáu i artistiaid o bob cefndir ddatblygu eu creadigrwydd, eu sgiliau, a'u gallu i arwain yn rhyngwladol. Mae ein rhaglen ryngwladol a'n buddsoddiadau'n helpu i ddatblygu creadigrwydd, sgiliau ac arweinyddiaeth trwy ehangu gorwelion a photensial.

Nid yw'r llwybrau wedi'u cyfyngu gan rwystrau a ffiniau, ac mae'r cyd-destun lleol yn cael ei gyfoethogi drwy gydweithio rhyngwladol. Caiff artistiaid eu talu'n deg am eu gwaith rhyngwladol, a byddwn yn mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i gymryd rhan, fel fisas. Mae modelau newydd o waith rhyngwladol cynaliadwy yn cael eu cofnodi a'u rhannu ag eraill, er mwyn dysgu ar gyfer y dyfodol.

## Trawsnewid

Mae ein buddsoddiadau'n ein helpu i fanteisio ar gyfleoedd rhyngwladol newydd a pherthnasol ac yn galluogi artistiaid i gymryd risgiau, gan fod yn gryf ac yn ymatebol yn wyneb byd sy'n newid, a pharhau i fod yn berthnasol i bobl a chymunedau Cymru.

Caiff artistiaid eu cefnogi i gynnwys cydweithio rhyngwladol fel rhan annatod o'u gwaith a gweithredu mewn ffordd gyfrifol yn fyd-eang. Maen nhw'n ymddiddori ac yn cymryd rhan mewn trafodaethau byd-eang sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau, gan rannu dealltwriaeth o'r tueddiadau byd-eang ac arferion gorau rhyngwladol gyda'r gymuned gelfyddydol yng Nghymru. Mae ein rhaglen ryngwladol yn galluogi artistiaid i ymgysylltu â phobl ledled y byd sydd ar flaen y gad o ran datblygu arferion trawsnewidiol, gan arwain at ysgogi newid mewn economïau cylchol lleol yng Nghymru.



HIJINX, *Meet Fred* (Llun: Kirsten McTernan)

# Deilliannau Llesiant Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

Bydd blaenoriaethau Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn arwain at saith deilliant llesiant cyffredinol sy’n gysylltiedig â phob un o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.


Rydyn ni am sicrhau bod cysylltiadau clir rhwng yr hyn a wnawn (ein blaenoriaethau a’n gweithgareddau) a’r hyn rydyn ni am ei gyflawni (deilliannau ac effaith). Byddwn yn adolygu ac yn mesur ein gwaith dros gyfnod y strategaeth hon.

**Celfyddydau Rhyngwladol Cymru**

Creu cyfleoedd rhyngwladol ar gyfer artistiaid sy’n byw yng Nghymru i gynnal a chyfoethogi eu gwaith mewn ffordd sy’n deg a chyfartal.

Cefnogi’r celfyddydau a diwylliant o fewn cysylltiadau rhyngwladol Cymru mewn ffordd sy’n deg i bobl ac i’r blaned.

Croesawu diwylliannau, ieithoedd a dylanwadau eraill i Gymru.



Yn 2025-26, byddwn yn profi cyfres o ddangosyddion yn erbyn ein Deilliannau Llesiant. Y tabl hwn yw rhifyn cyntaf y Fframwaith Gwerthuso Effaith a fydd yn cael ei adolygu'n flynyddol.

**Gweithgareddau**

Creu cyfleoedd rhyngwladol ar gyfer artistiaid sy'n byw yng Nghymru i gynnal a chyfoethogi eu gwaith mewn ffordd sy'n deg a chyfartal.
Cefnogi'r celfyddydau a diwylliant o fewn cysylltiadau rhyngwladol Cymru mewn ffordd sy'n deg i bobl ac i'r blaned.
Croesawu diwylliannau, ieithoedd a dylanwadau eraill i Gymru.

**Deilliannau Diwylliant**

Mwy o amrywiaeth o artistiaid a sefydliadau celfyddydol Cymreig yn ymgysylltu â chyfleoedd rhyngwladol.
Mwy o amrywiaeth o artistiaid arweiniol rhyngwladol a pherthnasol yn gweithio yng Nghymru.

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Deilliannau Llesiant** | • Diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg yn cael eu profi'n rhyngwladol drwy'r celfyddydau. | • Partneriaid yn mabwysiadu arferion gwaith mwy teg.<br>• Artistiaid a sefydliadau celfyddydol yn mabwysiadu arferion ac ymddygiadau mwy cynaliadwy. | • Mwy o gyfleoedd â thâl yn cael eu creu.<br>• Mwy o incwm i artistiaid.<br>• Effaith economaidd ar ardaloedd lleol. | • Artistiaid yn creu gwaith sy'n tynnu sylw'r cyhoedd at yr argyfwng bioamrywiaeth a hinsawdd. | • Mwy o ymgysylltiad â'r celfyddydau yng Nghymru.<br>• Artistiaid yng Nghymru sy'n gweithio ym maes y Celfyddydau ac Iechyd yn dysgu o arferion da rhyngwladol. | • Celfyddyd o ddiwylliannau rhyngwladol amrywiol yn cael ei phrofi yng Nghymru.<br>• Artistiaid amrywiol o Gymru yn gweithio'n rhyngwladol. | • Gwahanol gymunedau yng Nghymru yn cael profiad o ddiwylliannau ac ieithoedd ei gilydd. |
| **Dangosyddion** | • Nifer a demograffeg yr artistiaid o Gymru sy'n gweithio'n rhyngwladol drwy WAI.<br>• Nifer a demograffeg yr artistiaid rhyngwladol sy'n gweithio yng Nghymru drwy WAI.<br>• Faint o bobl mae'r celfyddydau Cymraeg/ Saesneg yn eu cyrraedd. | • Partneriaid rhyngwladol yn derbyn Cyflog Byw Gwirioneddol.<br>• Ôl-troed carbon prosiectau a ariennir gan WAI. | • Nifer a gwerth y cyfleoedd â thâl a grëwyd / a gynhaliwyd yn uniongyrchol.<br>• Y newid o ran incwm artistiaid wedi'i fesur yn erbyn y Cyflog Byw Gwirioneddol.<br>• Effaith lluosydd y prosiectau a ariennir (x1.3). | • Dylanwad ar waith yr artist – arolwg.<br>• Nifer y bobl mae'r gwaith ar gyfiawnder hinsawdd yn ei gyrraedd.<br>• Arolwg ymateb cyflym sy'n nodi newid o ran ymgysylltiad ac ymddygiad. | • Mapio nifer y bobl mae artistiaid WAI yn eu cyrraedd yng Nghymru yn erbyn amddifadedd – MALIC (WIMD).<br>• Arolwg ymateb uniongyrchol y gynulleidfa.<br>• Arolwg o'r artistiaid sy'n gweithio ym maes y Celfyddydau ac Iechyd. | • Nifer a chenedligrwydd yr artistiaid rhyngwladol sy'n ymweld â Chymru ac yn gweithio yng Nghymru – gan ddangos grwpiau a dangynrychiolir, lleiafrifol a Brodorol.<br>• Demograffeg yr artistiaid o Gymru sy'n gweithio'n rhyngwladol. | • Mapio nifer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) sy'n profi celf a ariennir gan WAI, yn erbyn y MALIC.<br>• Nifer y prosiectau sy'n targedu cymunedau diaspora penodol.<br>• Arolwg ymateb cyflym. |

## Sut mae Deilliannau Llesiant Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn bodloni Chwe Egwyddor Cyngor y Celfyddydau (yr Amcanion Llesiant)

| Deilliannau WAI | Creadigrwydd | Cydraddoldeb ac ymgysylltiad | Y Gymraeg | Cyfiawnder hinsawdd | Meithrin talent | Trawsnewid |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mwy o ystod amrywiol o artistiaid a sefydliadau celfyddydol Cymreig yn ymgysylltu â chyfleoedd rhyngwladol | ○ | ○ | ○ | | ○ | ○ |
| Artistiaid rhyngwladol mwy amrywiol, o ansawdd uchel, yn gweithio yng Nghymru | ○ | ○ | | | ○ | |
| Diwylliant Cymru a’r iaith Gymraeg yn cael eu profi’n rhyngwladol drwy’r celfyddydau | | | ○ | | | |
| Partneriaid yn mabwysiadu arferion gwaith mwy teg | | | | | | ○ |
| Artistiaid a sefydliadau celfyddydol yn mabwysiadu arferion ac ymddygiadau mwy cynaliadwy | | | | ○ | | |
| Mwy o gyfleoedd â thâl yn cael eu creu | | | | | ○ | |
| Mwy o incwm i artistiaid | | | | | ○ | |
| Effaith economaidd ar ardaloedd lleol | | | | | | |
| Artistiaid yn creu gwaith sy’n tynnu sylw’r cyhoedd at yr argyfwng bioamrywiaeth a hinsawdd | ○ | | | ○ | | |
| Mwy o ymgysylltiad â’r celfyddydau yng Nghymru | ○ | ○ | | | | |
| Artistiaid yng Nghymru sy’n gweithio ym maes y Celfyddydau ac Iechyd yn dysgu o arferion da rhyngwladol | | | | | | |
| Celfyddyd o ddiwylliannau rhyngwladol amrywiol yn cael ei phrofi yng Nghymru | ○ | ○ | | | | |
| Artistiaid amrywiol o Gymru yn gweithio'n rhyngwladol | ○ | ○ | | | ○ | |
| Gwahanol gymunedau yng Nghymru yn cael profiad o ddiwylliannau ac ieithoedd ei gilydd | ○ | ○ | | | | |

# Cyfeirnodau

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru

Blaenoriaethau Drafft ar gyfer Diwylliant yng Nghymru 2024 i 2030 – Llywodraeth Cymru

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Celfyddydau Cymru

Cynllun Cyfiawnder Hinsawdd a'r Celfyddydau

Nid yw Moroedd Mwyn yn Gwneud Morwyr Medrus – Adroddiad gan Watch Africa Cymru, wedi'i gomisiynu gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru

Degawd Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig

Dewch â'n Hawliau Creadigol – Maniffesto Celfyddydau Anabledd Cymru



Fforwm Symudedd Diwylliannol 2024, Nant Gwrtheyrn (Llun: Iolo Penri)